

# Gweithiwr Cymdeithasol Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Cymdeithasol)

**Llawn amser 37 awr**

**Newydd Gymhwyso £34,314-£37,035**

**Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) £37,938- £40,476**

**Lefel 3 gyda chymhwyster Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy £41,511 - £44,711**

**Lleoliad: Sir y Fflint**

A ydych chi newydd gymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol, â phrofiad yn y maes iechyd meddwl ac yn chwilio am gyfle newydd cyffrous a chreadigol o fewn Sir y Fflint? Mae ein tîm yn gweithio'n agos â'r tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, ond rydym yn gweithio o leoliad gwahanol ac yn cael ein rheoli ar wahân hefyd. Mae ein tîm iechyd meddwl wedi arwain y ffordd o ran datblygu gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio, mae gennym bartneriaethau gwych gyda'r trydydd sector a gwasanaethau mewnol, ac rydym yn gweithredu mewn modd arloesol. Mae cyfle wedi codi o fewn y tîm, ac os ydych chi'n chwilio am swydd yn y maes gwaith cymdeithasol sy'n mynd y tu hwnt i asesu a chynllunio gofal, dyma'r swydd i chi!

Mae ein gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a'r bobl yn eu bywydau, i sicrhau canlyniadau gwirioneddol er mwyn gwella eu hiechyd meddwl. Yn sail i hyn, mae dull a thîm rheoli a fydd yn darparu rheolaeth a chefnogaeth i'ch helpu i feddwl mewn modd agored, a thîm sefydlog a chefnogol o gydweithwyr profiadol i'ch helpu i deimlo'n gartrefol yn ein plith.

Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o hyfforddiant unigryw i'ch helpu i ddatblygu yn eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol, a byddwn yn eich helpu i gwblhau eich hyfforddiant Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ystod eich cyfnod â ni. Yn ogystal â hynny, rydym yn cynnig pecynnau gwyliau a phensiwn hael, gostyngiadau corfforaethol gwych gyda manwerthwyr ar draws y DU, ac ethos cyflogwr sy'n canolbwyntio ar gydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith.

I ddarganfod mwy am y swydd hon, ymgeisiwch nawr neu cysylltwch â Rhian neu Jo gan ddefnyddio'r manylion isod i gael sgwrs anffurfiol am beth allai gyrfa o fewn y tîm Iechyd Meddwl ei olygu i chi.

Rhian Evans, Rheolwr Tîm, Adnoddau Iechyd Meddwl rhian.evans@flintshire.gov.uk

Jo Taylor, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Anabledd ac Iechyd Meddwl jo.taylor@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council